



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Diweddariad am y brechlyn Vaccination Update



Cylchlythyr Wythnosol Weekly Newsletter

CYHOEDDIAD 49: wythnos 20/12/2021

Cynnydd Wythnosol (13 - 20 Rhagfyr)

Mae ein timau brechiadau yn gweithio'n eithriadol o galed i roi cymaint â phosib o frechiadau atgyfnerthu Covid-19. Yr wythnos diwethaf, rhoddom ni 40,730 o ddosau cyntaf, ail a dosau atgyfnerthu.

Rydym yn gweithio ar garlam i ddarparu nifer enfawr o frechiadau. May nifer o Feddygfeydd Teulu yn gweithio ar y cyd gyda'n Canolfannau Brechu Torfol a byddant yn rhannu carfanau er mwyn darparu'r dosau Atgyfnerthu cyn gynted ag sy'n bosib. Gall hyn olygu y bydd rhai grwpiau efallai'n rhedeg mewn gwahanol drefn.

Cewch restr o Bractisiau MT sydd yn cymryd rhan yn y ddarpariaeth brechiad Atgyfnerthu [yma](#).

Anelwn at gynnig apwyntiad brechiad Atgyfnerthu i bawb sydd dros 18 mlwydd oed ac sydd wedi derbyn eu hail ddos dros 3 mis yn ôl, erbyn diwedd Rhagfyr 2021.

BYDDWCH YN AMYNEDDGAR, BYDDWN YN CYSYLLTU Â CHI.

CYNNYDD BRECHIAD ATGYFNERTHU (hyd at 10pm, 19/12/2021)

GRŴP	CYFANSWM	% O STATWS	POBLOGAETH
80 oed a hŷn	25,456	87.9%	GWAHODDWDYD
75-79 oed	21,004	88.6%	GWAHODDWDYD
70-74 oed	28,881	88.2%	GWAHODDWDYD
65-69 oed	28,129	86.2%	GWAHODDWDYD
60-64 oed	30,917	81.6%	GWAHODDWDYD
55-59 oed	34,654	77.1%	AR WAITH
50-54 oed	31,505	70.9%	AR WAITH
40-49 oed	25,047	33.1%	AR WAITH
30-39 oed	16,240	19.4%	AR WAITH
18-29 oed	13,756	16.0%	RHAI MEDDYGON TEULU'N GWAHODD
Eithriadol o fregus yn glinigol	6,849	46.6%	GWAHODDWDYD
Grwpiau mewn perygl	47,180	68.8%	GWAHODDWDYD

Os ydych yn disgyn i grŵp wedi'i farcio'n **GWAHODDWDYD** a heb dderbyn gwahoddiad ar gyfer eich brechiad Atgyfnerthu, llenwch y [ffurflen ar-lein](#).

Cwestiynau Cyffredin Brechiad Atgyfnerthu Covid-19

Pa bryd fydda i'n cael fy mrechiad atgyfnerthu?

Oherwydd yr ystod eang o breswylwyr sydd angen brechiadau, nid ydym yn gallu rhoi amserlen bendant o ran pryd y bydd pobl yn derbyn eu gwahoddiad. Cysylltir â chi drwy lythyr, neges destun neu alwad ffôn. Rydym yn gweithio tuag at dargedau Llywodraeth Cymru o gynnig apwyntiad i bob preswylwr cymwys erbyn diwedd y flwyddyn.

NID OES ANGEN I CHI GYSYLLTU Â'CH MEDDYG TEULU. NI FYDD CYSYLLTU Â NI YN CYFLYMU EICH APWYNTIAD.

Collais fy apwyntiad gan fy mod ar fy ngwyliau - beth ddylwn i ei wneud?

Oherwydd yr ystod eang o bobl sydd angen brechiadau, nid ydym yn gallu cynnig apwyntiadau yn lle'r rhai gwreiddiol ar hyn o bryd. Os nad ydych yn gallu dod i'ch apwyntiad, byddwch yn cael un yn ei le yn fuan ym mis Ionawr.

Ni allaf ddod i'm hapwyntiad gan fod gen i Covid - beth ddylwn i ei wneud?

Os ydych wedi dal Covid-19 yn ddiweddar ac yn hŷn na 18, bydd angen i chi aros am 28 diwrnod cyn cael eich brechiad atgyfnerthu. Llenwch [y ffurflen](#) hon i ganslo eich apwyntiad a gwneud cais am apwyntiad i gael ei anfon atoch yn ei le. Gallwn wirio ar ein system i ganfod y dyddiad y gwnaethoch brofi'n bositif ac ailosod apwyntiad unwaith y byddwch yn gymwys eto.

Nid wyf wedi cael brechiad dos cyntaf, a gaf i gerdded i mewn i ganolfan frechu?

Cewch, gall unrhyw un dros 12 oed nad ydynt wedi derbyn y cynnig i gael brechiad Covid-19 gerdded i mewn i unrhyw un o'n canolfannau brechu yn ystod eu horiau agor i dderbyn eu dos cyntaf o'r brechiad. Nodwch os gwelwch yn dda, bod yn rhaid i blant dan 16 mlwydd oed gael eu hebrwng gan oedolyn/warchodwr.

NODER OS GWELWCH YN DDA, MAE HYN YN BERTHNASOL AR GYFER DOSAU CYNTAF YN UNIG.

Faint o rybudd fyddwch chi'n ei roi i mi cyn fy apwyntiad?

Oherwydd y nifer fawr o breswylwyr sydd angen brechiad ar hyn o bryd, mae'n bosib y byddwn yn rhoi gwybod i chi am eich apwyntiad ar fyr rybudd. Gofynnwn i bawb fod yn hyblyg ac i ddisgwyl derbyn apwyntiad ar fyr rybudd. Rydym yn cyhoeddi apwyntiadau atgyfnerthu drwy lythyrau, negeseuon testun ac ar y ffôn. Bydd galwadau ffôn yn dod o rif sy'n dechrau gyda 0330 - atebwch ein galwadau os gwelwch yn dda. Sicrhewch fod eich manylion cyswllt i gyd yn gyfredol gyda'ch meddyg teulu hefyd.

Pa frechlyn fyddaf yn ei dderbyn fel fy nos atgyfnerthu?

Bydd y brechiad fyddwch yn ei gael yn dibynnu ar y cyflenwad. Ar hyn o bryd rydym yn cynnig Pfizer a Moderna o fewn ein clinigau, ond nid yw'n bosib dewis pa frechiad rydych chi'n ei gael.

Os ydych yn 60 oed neu'n hŷn, neu mewn grŵp risg uchel, neu'n agored iawn i niwed yn glinigol a heb dderbyn cynnig apwyntiad, llenwch y ffurflen ar ein gwefan os gwelwch yn dda.
<https://bipab.gig.cymru/coronafeirws/brechlyn-ar-gyfer-covid-19/yn-aros-am-fanylion-eich-brechiad-atgyfnerthu/>

Mae Gwybodaeth ynghylch Pas Covid y GIG ar gael yn
<https://gov.wales/get-your-nhs-covid-pass#section70608> Neu drwy
ffonio 0300 303 5667

Am ragor o wybodaeth ynghylch y Brechiad Covid-19, ewch i:
<https://abuhb.nhs.wales/coronavirus/covid19-vaccine/>

Gwybodaeth ynghylch y Brechiad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru:
<https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/covid-19-vaccination-information/>

Gwisgwch yn barod
ar gyfer tywydd
oer wrth
fynychu'ch
apwyntiad
brechu

